



CYNGOR TREF BAE COLWYN

BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL

Mrs Tina Earley MILCM, Clerc a Swyddog Cyllid/Clerk & Finance Officer
Cyngor Tref/Town Hall, Ffordd Rhiw Road, Bae Colwyn Bay, LL29 7TE.

Ffôn/Telephone: 01492 532248

Ebost/Email: colwyncouncil@freenetname.co.uk

www.colwyncouncil.co.uk

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH SYR JOHN HENRY MORRIS JONES

Unwaith eto mae Ymddiriedolwyr y Gronfa yn chwilio am geisiadau gan bobl ifanc dan 19 mlwydd oed ar 31ain Mawrth 2023 ac sy'n byw yn ardal hen Fwrdeistref Bae Colwyn fel roedd yn bodoli ar 31ain Mawrth 1974 h.y. Bae Colwyn, Llandrillo yn Rhos, Hen Golwyn, Mochdre a Llysfaen gyda golwg ar ddyfarnu grantiau i bobl sy'n cymwys yn ôl canllawiau'r Ymddiriedolwyr.

Am y flwyddyn 2023, mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu dyfarnu grant(iau) i un neu fwy o bobl, a bydd maint y grant ar ddisgresiwn llwyr yr Ymddiriedolwyr. Mae cyfanswm yr hyn a ellir ei ddyfarnu yn newid o flwyddyn i flwyddyn. Y rheswm am hyn yw'r newidiadau yn y cyfraddau llog a geir ar Falans y Cyfalaf.

Bydd yr ymgeiswyr hyn yn gorfod bodloni'r Ymddiriedolwyr, mewn cyfweiliad personol, o'u rhagoriaeth yn un o'r meysydd canlynol:

- A) Celf, Crefft a Cherddoriaeth
- B) Chwaraeon
- C) Academaidd ac Ymchwil
- Ch) Masnach a Fusnes
- D) Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Dd) Unrhyw faes arall mae'r ymgeisydd yn teimlo y buasai'n cyd-fynd â gofynion yr Ymddiriedolwyr

Yn unol â'r Gweithred Ymddiriedolaeth, ni fydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried ceisiadau am gysiau Addysg Uwch neu Addysg Bellach.

Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth dan delerau Ewyllys y Diweddar Syr John Henry Morris Jones M.C., D.L., Y.H, a fu yn Meddyg Teulu yn y Dref am lawer o flynyddoedd. Ef hefyd oedd yr Aelod Seneddol am etholaeth Dinbych o 1929 tan 1950, a daeth yn Rhyddfreniwr er Anrhydedd o Fwrdeistref Bae Colwyn ym 1956. Dymuniad Syr Henry oedd i enillion ei gymynrodd cael ei ddefnyddio er budd y bobl ifanc o hen Fwrdeistref Bae Colwyn. Mae hyn yn cynnwys y bobl hynny sydd yn derbyn addysg llawn amser neu yn cael eu cyflogi y tu allan i'r Fwrdeistref ond efo'u cartref preswyl arferol o fewn ardal hen Fwrdeistref Bae Colwyn

Cynhelir cyfweiliadau yn ystod mis Mai ac fe gyhoeddir y canlyniadau yn ddiweddarach mewn seremoni briodol.

Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth Mrs C.J. Earley, Clerk to the Trustees, Town Hall, Rhiw Road, Colwyn Bay, LL29 7TE a rhaid eu dychwelyd erbyn **31ain Mawrth**.